YSGOL ABERCONWY

8th June 2016

**Dear Parent / Guardian**

As you know Conwy County Borough Council announced their withdrawal of all subsidised home to school transport as from January 2016. You will also recall that in response to concerns for children's safety travelling to and from school, Ysgol Aberconwy made arrangements to provide an equivalent service to Llandudno Junction and Deganwy through Alpine, funded entirely by ticket sales for the service.

I am writing to confirm that these arrangements will remain in place for the next academic year and to make you aware of the price of this transport and the arrangements for payment.

- The cost of a weekly pass for Llandudno Junction will be £5 per week and students can continue to purchase this in school on a Friday lunchtime if they so wish.
- Alternatively students can purchase an annual pass for £165.00, payable either by cash or cheque (to Ysgol Aberconwy) or by 10 direct debit instalments of £16.50.

In either case, I would be grateful if you could complete the attached form and return it to school by Monday 27th June, together with payments and forms as indicated.

Whilst every effort will be made to accommodate students who apply to use this service, it should be noted that there will be a limit on the number of passes we can provide, corresponding to the number of seats on the buses. As such provision will be allocated on a "first come, first served" basis.

I would also ask that you remind your son / daughter that the "no pass, no travel" rule adopted by CCBC will also apply to this service and that they should adhere to the enclosed school bus behaviour code if they wish to continue using this service.

I trust that these arrangements will mean that we can continue to provide safe and affordable transport for your child to / from school. If you have any queries about the provision of this transport or any of the payment arrangements please contact the school.

Yours sincerely

Ian Gerrard
Headteacher


MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED
+44 (0)1492 593243
+44 (0)1492 592537
INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

YSGOL
ABERCONWY

8fed o Fehefin 2016

**Annwyl Riant / Warcheidwad**

Fel y gwyddoch, cyhoeddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy eu bod yn dod â chludiant cymorthdaledig o'r cartref i'r ysgol i ben o Ionawr 2016. Yn ogystal, fe gofiwch fod Ysgol Aberconwy, mewn ymateb i bryderon ynglŷn â diogelwch plant sy'n teithio i'r ysgol ac yn ôl, wedi trefnu i ddarparu gwasanaeth cywerth i Gyffordd Llandudno a Deganwy trwy gymorth cwmni Alpine, gan ariannu'r gwasanaeth drwy werthu tocynnau.

Ysgrifennaf atoch i gadarnhau y bydd y trefniadau hyn yn parhau am y flwyddyn academaidd nesaf ac i dynnu'ch sylw at bris y cludiant hwn a'r trefniadau ar gyfer talu.

- Cost tocyn wythnosol ar gyfer Cyffordd Llandudno fydd £5 yr wythnos a gall myfyrwyr barhau i brynu'r tocyn hwn yn ystod yr egwyl cinio ar ddydd Gwener, os dymunant.
- Fel arall, gall myfyrwyr brynu tocyn blwyddyn am £165.00, yn daladwy naill ai drwy gyflwyno arian parod neu siec (i Ysgol Aberconwy) neu drwy 10 rhandal debyd uniongyrchol o £16.50.

Pa ddull bynnag a ddewisir, a fyddech mor garedig â llenwi'r ffurflen sydd ynghlwm, os gwelwch yn dda, a'i dychwelyd i'r ysgol erbyn Dydd Llun 27ain o Fehefin, gyda'r taliadau a'r ffurflenni fel y nodwyd.

Rydym yn gwneud pob ymdrech i gynorthwyo myfyrwyr sy'n gwneud cais i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn, ond rhaid nodi mai dim ond nifer cyfyngedig o'r tocynnau hyn sydd ar gael, gan eu bod yn cyfateb â nifer y seddau ar y bysiau. Oherwydd hyn, "cyntaf i'r felin gaiff falu".

Hoffwn ofyn i chi atgoffa'ch mab / merch y bydd y rheol "dim tocyn, dim teithio" a fabwysiadwyd gan CBSC hefyd yn berthnasol i'r gwasanaeth hwn ac y dylent felly gadw at y cod ymddygiad ar fws ysgol amgaeedig os dymunant barhau i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn.

Hyderaf y bydd y trefniadau hyn yn golygu y gallwn barhau i ddarparu cludiant diogel a fforddadwy i'ch plentyn i'r ysgol ac yn ôl. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r ddarpariaeth o'r cludiant hwn neu unrhyw drefniadau i dalu, mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol.

Yn gywir

Ian Gerrard
Pennaeth


MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED
+44 (0)1492 593243
+44 (0)1492 592537
INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

YSGOL ABERCONWY

# Ysgol Aberconwy

Application for a seat – School Transport

Please note that by completing and submitting the application form for transport and accepting a place on home school transport you agree to abide by the "School Bus Behaviour Code".

| Student Information | |
|---|---|
| Student Full Name | |
| Date of Birth | |
| Address | |
| Post Code | |
| Telephone No. | |
| Bus Service | ☐ Llandudno Junction ☐ Deganwy (please tick) |

I confirm my child's intention to use this bus service in 2016/2017. He / she will pay for tickets :

☐ Weekly (£5 per week, payable in school every Friday lunchtime).

☐ By monthly direct debit (£16.50 per month) and I enclose a direct debit form accordingly.

☐ Annually by cash or cheque (£165.00) and I enclose payment as indicated.

| | | |
|---|---|---|
| Date | | |
| Print Name | | Parent / Guardian |
| Signed | | Parent / Guardian |
| Print Name | | Student |
| Signed | | Student |

**Please return this form to Ysgol Aberconwy reception.**



MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED | +44 (0)1492 593243 | +44 (0)1492 592537 | INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK | WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

YSGOL ABERCONWY

# Ysgol Aberconwy

Cais am sedd – Cludiant Ysgol

Nodwch eich bod yn cytuno i ddilyn y “Cod Ymddygiad ar Fws Ysgol” trwy gwblhau a chyflwyno’r ffurflen gais hon ar gyfer cludiant a thrwy dderbyn lle ar gludiant o’r cartref i’r ysgol ac yn ôl.

| Gwybodaeth am y Myfyriwr | |
|---|---|
| Enw Llawn y Myfyriwr | |
| Dyddiad Geni | |
| Cyfeiriad | |
| Cod Post | |
| Rhif Ffôn | |
| Gwasanaeth Bws | ☐ Cyffordd Llandudno ☐ Deganwy (rhowch dic) |

Yr wyf yn cadarnhau bwriad fy mhlentyn i ddefnyddio’r gwasanaeth bws hwn yn 2016/2017. Bydd yn talu am docynnau :

☐ Yn wythnosol (£5 yr wythnos, yn daladwy i’r ysgol bob egwyl cinio ar Ddydd Gwener).

☐ Drwy ddebyd uniongyrchol bob mis (£16.50 bob mis) ac amgaeaf ffurflen debyd uniongyrchol yn unol â hynny.

☐ Yn flynyddol gydag arian neu siec (£165.00) ac amgaeaf y tâl fel y nodwyd.

| | | |
|---|---|---|
| Dyddiad | | |
| Printio’r Enw | | Rhiant / Gwarcheidwad |
| Llofnod | | Rhiant / Gwarcheidwad |
| Printio’r Enw | | Myfyriwr |
| Llofnod | | Myfyriwr |

**Os gwelwch yn dda, dychwelwch y ffurflen hon i dderbynfa Ysgol Aberconwy.**



MORFA DRIVE
CONWY LL32 8ED
+44 (0)1492 593243
+44 (0)1492 592537
INFO@ABERCONWY.CONWY.SCH.UK
WWW.ABERCONWY.CONWY.SCH.UK

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE